


Addewid Duw


Fe wnaeth Duw y Tad, yr Un sydd wedi'n creu ni, addo flynyddoedd maith yn ôl y byddai'n anfon Meseia i'r byd. Dywedodd wrth rai pobl arbennig o'r enw proffwydi am hyn ac fe wnaethon nhw gyhoeddi y byddai'r Meseia'n dod ymhell o flaen llaw. Mae'r proffwydoliaethau hyn, pethau sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol, wedi'u hysgrifennu yn y Beibl. Mab Duw yw'r Meseia. Ef yw Addewid Duw.



Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch. Eseia 9:6

Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn lân!

Tynnwch linell i ddangos beth sy'n gallu golchi'r pethau ar y rhes gyntaf.



Tynnwch lun o'r
hyn mae'r Iesu'n ei
olygu i chi.

Pwy yw'r
Meseia?



Gwers 1

Addewid Duw

Testun y Beibl: Eseia 9:1-7

Adnod allweddol: Eseia 9:6

Pwrpas: Bydd y plant yn deall yr angen am Waredwr ac addewid Duw i anfon y Gwaredwr hwn.

GWERS A GWEITHGAREDDAU

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

I. Gwers

Wedi i'r plant gwblhau'r dudalen liwio, bydd yr athro/athrawes yn sôn wrthynt am addewid Duw yn y Beibl a'r angen i Waredwr ddod i'r byd. Dylid defnyddio dull cwestiwn ac ateb. Wedi darllen Eseia 9:1-7, gofynnir i'r plant:

C: Pam wnaeth Duw addo Gwaredwr a pham y bu'n rhaid i'w Fab ddod i'r byd?

A: Cafodd y bobl gyntaf, Adda ac Efa, eu creu'n berffaith gan Duw, hynny yw, heb bechod. Ond wnaethon nhw ddim bod yn ufudd i Dduw. (Mae bod yn anufudd i Dduw yn bechod). Dyma sut y daeth pechod i'r byd, a chyda pechod daeth marwolaeth. Ers hynny, mae mwy a mwy o bechod ac mae pobl wedi gweithredu'n wael iawn. Mae llyfr cyntaf y Beibl, Genesis, yn dweud wrthym am bechod Adda ac Efa a'r pechod a ddaeth oherwydd na wnaethant wrando ar Dduw. Mae Duw yn sanctaidd ac nid oes ynddo bechod. Mae'n casáu pechod ond mae'n caru'r bobl y mae wedi'u creu. Mae pawb wedi pechu ac yn haeddu cosb drwy gael eu gwahanu am byth oddi wrth Dduw, hynny yw marwolaeth. Mae gan Dduw gynllun i achub yr holl bobl: anfon Gwaredwr a fyddai'n cymryd pechod pawb arno ef ei hun ac achub pobl rhag gael eu gwahanu oddi wrth Dduw a dioddefaint. Nid yw Duw eisiau i bobl ddiodefaint am byth. Dyna pam y gwnaeth Duw addo'r Gwaredwr hwn yn syth wedi i Adda ac Efa bechu (Genesis 3:15). Am Dduw da a chariadlon sydd gennym! Mae Ef eisiau'r gorau i ni ac i'n gwneud yn hapus. Gall pobl ond bod yn hapus wrth fyw gyda Duw a bod yn ufudd iddo.

C: Pwy yw'r Gwaredwr?

A: Yr Iesu yw'r Gwaredwr, y Meseia. Cafodd ei enedigaeth ei thrafod ymhell cyn iddo gael ei eni. Duw y Creawdwr oedd y cyntaf i sôn am y Meseia pan gosbodd y neidr yng Ngardd Eden am fod y neidr wedi twyllo Efa, heb fod yn ufudd i Dduw. Satan oedd y neidr. Dywedodd Duw wrth Satan bryd hynny y byddai 'epil' neu 'blentyn' gwraig yn 'sathru pen y neidr'. O hynny mlaen, siaradodd Duw â llawer o bobl am y Meseia'n dod. Proffwydi y mae'r bobl hyn yn cael eu galw. Eu gwaith hwy oedd rhoi negeseuon Duw i bobl. Gwnaeth llawer o broffwydi yn y Beibl siarad am y Meseia'n dod.

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod o'r Beibl yn uchel:

"Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch." Eiseia 9:6

b. Eglurwch yr adnod o'r Beibl.

Proffwydoliaeth yw'r adnod hon.

Mae'r enwau neu'r teitlau'n cyfeirio at Iesu, Mab Duw.

Mae nifer o eiriau pwysig i'w hegluro:

Plentyn (bydd y Meseia'n dod i'r byd yn blentyn),

Cael ei eni (Mae'r Meseia'n cael ei eni fel unrhyw berson arall);

Mab wedi cael ei roi i ni (Duw y Creawdwr wnaeth roi'r Meseia i ni)

Strategydd rhyfeddol (Mae'n rhoi cyfarwyddiadau da)

Duw arwrol (Duw yw'r Meseia)

Tad yr oesoedd (Duw yw'r Meseia ac mae'n dragwyddol)

Tywysog heddwch (Mae'n caru heddwch)

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau: ailadrodd, gemau, cystadlaethau ac yn y blaen.

2. Cwestiynau allweddol i'w hadolygu:

Pwy yw addewid Duw?

Pryd y soniwyd gyntaf am Waredwr yn dod? Pwy gafodd glywed am hyn?

Beth yw Gwaredwr?

Pam oedd raid i Waredwr ddod i'r byd?

Beth mae Duw'n ei garu? Beth mae Duw yn ei gasáu?

Beth yw proffwydoliaeth?

Pwy yw'r proffwydi?

III. Diwedd glo

Addewid Duw yw Mab Duw, Iesu Grist, y Meseia, Gwaredwr y byd. Mae Ef eisiau achub pawb rhag cael eu gwahanu am byth oddi wrth Dduw. Dim ond drwy'r Iesu y mae'n bosibl cael maddeuant pechodau.